

BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

CYFNOD: 1 EBRILL 2020 - 31 GORFFENNAF 2020

**CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN
CYFARFODYDD CABINET**

Cysylltwch â'r Swyddfa Cefnogi'r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth

Teitl yr Adroddiad	Crynodeb o'r Materion a'r Argymhelliad Arfaethedig	Statws goleuadau traffig craffu	Ymgynghoreion	Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad
--------------------	----------------------------------------------------	---------------------------------	---------------	-----------------------------------

Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion	I ddiweddarar Cabinet ar hynt datblygu ystâd ysgolion bresennol y Cyngor, a chyflawni darpariaeth newydd dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Lleol	Amber/Ambur		Cabinet
Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2021/22	<p>Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2016, gofynnir i'r Cyngor adolygu'r Polisi Derbyn i Ysgolion bob blwyddyn.</p> <p>Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Derbyn i Ysgolion 2021/22 a newidiadau i ddalgylchoedd rhai ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Rhaid penderfynu ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion er mwyn eu rhoi ar waith ym mis Medi 2021</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd ag argymhellion ar sut y dylid bwrw ymlaen.</p>			Cabinet

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Polisi Tâl	Ystyried y Polisi Tâl ar gyfer 2020-21	Green/Gwyrdd		Cabinet
------------	----------------------------------------	--------------	--	---------

Tai a Chymunedau

Gorcladin	<p>Yn dilyn trasiedi Grenfell Towers, cynhaliodd Cyngor Caerdydd brofion ar y cladin ar ei flociau fflatiau uchel domestig a chymerodd y penderfyniad i'w waredu.</p> <p>Bellach mae Tai a Chymunedau yn bwriadu ail-gladio Fflatiau Lydstep ac mae wedi cyflogi ymgynghorwyr i ddatblygu dewisiadau</p>	Amber/Ambur		Cabinet
-----------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	<p>dylunio i'r Cyngor eu hystyried.</p> <p>Yr opsiwn yr ystyriwyd fel yr un mwyaf diogel o ran diogelwch tân yw symud ymlaen gyda'r opsiwn briciau.</p> <p>Mae Tai a Chymunedau yn gweithio gyda chydweithwyr mewn Projectau, Dylunio a Datblygu a Chaffael i benodi contractwr i ddarparu'r gwaith ail-gladio.</p> <p>Yr argymhelliad yw penodi Contractwr i ddarparu'r gwaith hwn drwy gystadleuaeth fach o dan Fframwaith Priffyrdd De-ddwyrain Cymru (Lot 8).</p> <p>Amcangyfrifir mai gwerth y gwaith hwn yw £10 miliwn.</p>			
Caffael safle'r Gweithfeydd Nwy yn Grangetown	<p>Mae gennym gyfle i gaffael hen safle'r Gweithfeydd Nwy yn Ferry Road, Caerdydd. Dyraniad tai strategol yw hwn yn y Cynllun Datblygu Lleol, y rhagwelir y bydd yn darparu tua 500 o gartrefi newydd.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r safle'n eiddo ar y cyd rhwng y Grid Cenedlaethol a Wales and West Utilities. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ers nifer o flynyddoedd rhwng y perchnogion a Persimmon Homes. Er gwaethaf y trafodaethau hirfaith hyn, nid yw Persimmon Homes wedi ymrwymo i gontractau eto. Mae'r perchenogion yn teimlo'n rhwystredig am yr amser a gymerir i gwblhau'r cytundeb ac felly'n chwilio am ddewis arall.</p> <p>Cawsom drafodaethau cyfrinachol gyda'r perchenogion i gadarnhau ein diddordeb mewn caffael y safle a gofynnwyd i ni gyflwyno cynnig erbyn 31 Ionawr 2020 i'w hystyried, nad yw'n destun amodau cynllunio na thir. Rydym wedi comisiynu cyngor arbenigol ar y costau annormal o ran datblygu'r safle er mwyn gallu ystyried hyn</p>	Amber/Amb r		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	mewn adroddiad prisio.			
Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2020/21	Ystyried Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai	Amber/Ambr		Cabinet
Gatiau Lonydd Cefn ar Briffyrdd Cyhoeddus - Polisi a Strategaeth Cyngor Caerdydd 2020	<p>Mae gatiau lonydd cefn yn fesur syml ac effeithiol sy'n helpu i leihau lefelau o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai barhau er anfantais i gymunedau lleol fel arall.</p> <p>Yn 2008, gweithredodd Cyngor Caerdydd bolisi gosod gatiau lonydd cefn, ac mae'n parhau i gefnogi a chydabod pwysigrwydd y cynlluniau hyn. Ers hynny, mae gatiau wedi'u gosod mewn nwy na 180 o lonydd, gan fod o fudd i tua 7,500 eiddo.</p> <p>Yn 2014, diddymwyd y pwerau deddfwriaethol ar gyfer gosod gatiau lonydd cefn dan y Ddeddf Priffyrdd, ac fe'u deddfwyd fel Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma. Er ei bod yn ymddangos bod gorchmynion gosod gatiau cefn a GDMACau yn debyg, mae rhai gwahaniaethau gweithdrefnol a gyflwynwyd yn rhan o'r gofynion deddfwriaethol newydd.</p> <p>Diben yr adroddiad hwn yw cynnig polisi a strategaeth gosod gatiau lonydd cefn newydd yn unol â'r gofynion deddfwriaethol cyfredol, gan nodi'r ystyriaethau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau hyn.</p>	Amber/Ambr		Cabinet

Buddsoddi a Datblygu

Adfywio James Stree	James Street yw'r brif ffordd i mewn i Fae Caerdydd o orllewin y ddinas. Ar hyn o bryd mae rhannau sylweddol o James Street sy'n	Amber		Cabinet
---------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	parhau i fod wedi'u difwyno. Bydd cynllun adfywio ar gyfer James Street yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhan hon o Fae Caerdydd a'r Ardal Dreftadaeth ym Mae Caerdydd.			
Callaghan Square				Cabinet

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

Cymeradwyaeth ar gyfer Cyfranogi yng Nghynllun Ailsefydlu'r DU	Bydd y Cynllun Ailsefydlu i Bobl sy'n Agored i Niwed (VPRS) yn dod i ddiwedd naturiol ym mis Mawrth/Ebrill 2020. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno Cynllun Ailsefydlu'r DU (UKRS), er mwyn galluogi ailsefydlu y tu hwnt i 2020. Bydd gan y cynllun amnewid ffocws daearyddol ehangach, a bydd yn galluogi adsefydlu hyd at 5000 o'r ffoaduriaid mwyaf agored i niwed yn ystod y flwyddyn gyntaf, o ble bynnag y mae'r angen dyngarol mwyaf. Gofynnir i Awdurdodau Lleol gynnig lleoedd i gefnogi'r cynllun newydd.	Amber/Ambr		Cabinet
----------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------	--	---------

Strategic Planning and Transport

Adroddiad Adolygu a Chytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd	Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol ar 28 Ionawr 2016. Yn unol â deddfwriaeth mae angen i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiad llawn o'u CDLI wedi 4 blynedd o'i fabwysiadu. Cam cyntaf y broses hon yw paratoi ac ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni CDLI Newydd Caerdydd drafft. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 28 Tachwedd 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y dogfennau hyn rhwng 14 Ionawr 2020 ac 11 Chwefror 2020.			Cabinet
-------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	Diben yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ganfyddiadau'r broses ymgynghori hon ac argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu Terfynol a'r Cytundeb Cyflawni'r CDLI Newydd, a'u hanfon ymlaen i Lywodraeth Cymru iddi gytuno arnynt ac, yn amodol ar fod cytundeb yn cael ei roi, yn dechrau ar y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd.			

Ebrill 2020

Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd - Datblygu Celf, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar safle'r ysgol uchaf	Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnig i fuddsoddi mewn bloc modiwlaidd newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd i gymryd lle'r blociau mathemateg a chelf sydd mewn cyflwr gwael, a hefyd gwneud darpariaeth addas ar gyfer gwyddoniaeth. Ochr yn ochr â hyn, bydd yr ysgol yn lleihau eu PAN i 12 dosbarth y flwyddyn.	Amber/Amb r		Cabinet
---------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------	--	---------

Mai 2020

Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd

Cais am Gynnydd yn nhâl Cerbydau Hacni	<p>Mae cynnig wedi'i dderbyn gan Dragon Taxis i newid y tariff teithio y gall cerbydau hacni (taxis) ei godi yn y ddinas.</p> <p>Caiff cyngor ardal bennu neu amrywio ffi ar gyfer llogi tacsï dan ddarpariaethau Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976.</p> <p>Yng nghyfarfod y Cabinet ar 20 Chwefror, cymeradwyodd yr Aelodau y cynnydd mewn egwyddor yn amodol ar gyfnod o rybudd cyhoeddus, yn ôl gofynion y Ddeddf uchod.</p>	Green/Gwyr dd		Cabinet
----------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	Mae'r adroddiad hwn er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd i hysbysiad y cyhoedd.			
Ymateb i'r adroddiad Craffu, sef Rheoli Bioamrywiaeth	Ymateb i'r adroddiad Craffu gyda'r teitl 'rheoli Bioamrywiaeth'			Cabinet
Caerdydd Un Blaned	Ym 2019, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd. Bydd strategaeth Caerdydd Un Blaned yn gosod gweledigaeth ac ymateb strategol i hyn, gan nodi'r themâu allweddol ar gyfer gweithredu i ddatgarboneiddio gweithgareddau'r Cyngor ac, mewn partneriaeth, symud tuag at ddinas niwtral o ran carbon.	Red/Coch		Cabinet

Diwylliant a Hamdden

Yr Eglwys Norwyaidd	Bydd yr adroddiad yn cytuno ar y camau nesaf ar gyfer sicrhau partner i fuddsoddi yn yr Eglwys Norwyaidd a'i gweithredu.	Amber/Ambr		Cabinet
Cynigion Datblygu Canolfan Gelfyddydau'r Chapter	Cymeradwyo'r cynigion arfaethedig ar gyfer datblygu Canolfan Gelfyddydau'r Chapter.	Amber/Ambr		Cabinet

Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Cynllunio Trefnidiaeth Ysgolion: Darpariaeth blynnyddoedd cynnar, ysgol gynradd ac uwchradd i wasanaethu	Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr ystyriodd y Cabinet adroddiad sy'n rhestru'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer darpariaeth y blynnyddoedd cynnar, ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ôl-16 i wasanaethu Adamsdown a Sblot. Cafodd swyddogion awdurdod i ddod ag adroddiad pellach gerbron y Cabinet i'w ystyried, gan nodi manylion am gynigion diwygiedig i	Amber/Ambr		Cabinet
----------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Adamsdown a Sblot	ddarparu lleoedd addysg yn Adamsdown a Sblot. Diben yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar y cynigion diwygiedig.			
Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain ganrif (Band B): Ailddatblygu ac ehangu Ysgol Uwchradd Cathays	Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017 ystyriodd Cyngor y Cabinet adroddiad oedd yn nodi cynlluniau blaenoriaethu'r Cyngor i'w cynnal yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B Caerdydd. Diben yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar gynigion i ddatblygu safle presennol ysgol Uwchradd Cathays, yn unol â chynlluniau blaenoriaethu Band B.	Amber/Amber		Cabinet
Cynllun Trefniadaeth Ysgolion: Ysgol gynradd newydd i wasanaethu rhannau o Greigiau / Sain Ffagan, Radur / Pentre-poeth a'r Tyllgoed	Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2020, cytunodd Cabinet i gyhoeddi hysbysiad statudol i: Sefydlu ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad ddwy ffrwd gyda darpariaeth feithrin i wasanaethu cyfnodau cynnar y datblygiad ym Mhlasdŵr o fis Medi 2021. Dylid nodi cyn rhoi'r cynigion ar waith bod adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i roi'r cynllun ar waith neu fel arall.	Amber		Cabinet

Tai a Chymunedau

Adolygiad o ddarpariaeth Caerdydd Ar Waith ac Asiantaeth	Symudodd Caerdydd ar Waith i'r gwasanaeth Tai a Chymunedau ym mis Ebrill 2019. Ers hynny, cynhaliwyd adolygiad gwasanaeth llawn ac ystyriwyd gwahanol fodelau darparu. Cynigir bod Caerdydd ar Waith newydd, wedi'i wella, modern yn cael ei ddatblygu a'i gadw'n fewnol, gyda mwy o gysylltiad â'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith. Mae contract presennol yr asiantaeth allanol yn dod i ben ym mis	Green/Gwyrdd		Cabinet
----------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	Medi 2020. Cynigir y rhoddir dyfarniad uniongyrchol am 3 blynedd arall trwy'r fframwaith Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.			

Buddsoddi a Datblygu

Cynllun Eiddo Blyneddol 2020/21	Cynllun blyneddol sy'n cynnig rhaglen eiddo, adrodd ar gynnydd a gosod targedau i gefnogi'r Strategaeth Eiddo 2020-25	Green/Gwyrdd		Cabinet
Arena Dan Do	Er mwyn gwthio cynllun yr Arena Dan Do yn ei flaen, mae angen cymeradwyaeth i gael y budd tir priodol y gefnogi'r datblygiad.	Amber/Ambr		Cabinet
Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2020-2025	Strategaeth olynedd i'r strategaeth 2015-20. Yn amlinellu nodau, amcanion a thargedau ar gyfer eiddo dros y cyfnod 2020-2025.	Amber/Ambr		Cabinet
Pentref Chwaraeon Rhyngwladol	Ym mis Hydref 2019 cymeradwyodd y Cabinet strategaeth ddatblygu newydd ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd i ddod â'r gwaith o ddatblygu safle'r glannau ymlaen, a chynnal ymarfer caffael ar gyfer partner masnachol i sefydlu a gweithredu atyniad hamdden newydd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth a'r broses gaffael.	Amber/Ambr		Cabinet
Strategaeth Datblygu Llanrhymni - y Camau Nesaf	Ym mis Rhagfyr cymeradwywyd strategaeth ddatblygu newydd yn y Cabinet ar gyfer Llanrhymni, yn canolbwyntio ar y bont a'r ffordd gyswllt newydd rhwng ystâd Llanrhymni a'r A48. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad hwnnw a'r camau nesaf i'w gweithredu.	Green/Gwyrdd		Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
--------------	---------------------------------------------	-------------------------------	------------	----------------

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

Dinasoedd a Chymunedau sy'n rhoi Cyfleoedd i'r Henoed	Erbyn 2030 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 44% yn nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw yng Nghaerdydd. Mae angen sicrhau bod gan y Ddinas yr adnoddau i ymateb i'r heriau sy'n wynebu dinasyddion hŷn a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen i ffynnu ac aros yn iach. Er bod rhywfaint o arfer da o fewn y Ddinas, byddai gweithredu diwylliant o welliant parhaus yn sicrhau bod Caerdydd yn grymuso pobl hŷn i heneiddio'n dda. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu'r cysyniad o ddinas a chymuned sy'n rhoi cyfleoedd i'r henoed lle mae gwasanaethau, grwpiau lleol, busnesau a dinasyddion yn gweithio gyda'i gilydd i wneud newidiadau cadarnhaol i gefnogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.	Green/Gwyrdd		Cabinet
-------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------	--	---------

Mehfin 2020

Arweinydd

Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol 2019-20	<p>Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol dan Adran 44 Mesur y Gymraeg [Cymru] 2011 i gydymffurfio â'r rheoliad 'safonau'r Gymraeg'.</p> <p>Mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â chreu a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol.</p> <p>Hwn fydd y trydydd adroddiad blynyddol wedi'i greu dan safonau'r Gymraeg</p>	Green/Gwyrdd		Cabinet Cyngor
------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------	--	-------------------

Plant a Theuluoedd

Strategaeth Rhianta	Ystyried y Strategaeth Rhianta Corfforaethol			Cabinet
---------------------	----------------------------------------------	--	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Corfforaethol				

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Alldro	Bydd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa fonitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â refeniw a chyfrifon cyfalaf. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r amrywiadau allweddol.			Cabinet
--------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	---------

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

Cynllun Strategol i Ddarparu Canlyniadau Rhagorol ar gyfer Oedolion	Bydd y papur hwn yn gynllun strategol 3 blynedd i ddod â chanlyniadau ardderchog yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Bydd yn nodi sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu camau ataliol, gwella ymarfer, cynorthwyo a datblygu'r gweithlu, gwella ystod y cynigion gwasanaeth a gwella perfformiad.	Amber/Ambr		Cabinet
---------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------	--	---------